

Dai Lloyd AC

Cadeirydd y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon

18 Hydref 2019

Annwyl Dai,

Hawliau Plant yng Nghymru

Rwy'n ysgrifennu atoch mewn perthynas ag ymchwiliad y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg i **hawliau plant yng Nghymru**.

Ddeng mlynedd ar hugain ers cychwyn y broses o lofnodi Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (UNCRC), mae'r Pwyllgor yn cynnal ymchwiliad byr er mwyn adolygu effaith Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011.

Roedd Mesur 2011 yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i roi sylw dyledus i'r Confensiwn a'i brotocolau dewisol. O ganlyniad i'r Mesur, dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod unrhyw ddeddfwriaeth, polisiau neu benderfyniadau sy'n effeithio ar blant yn cydymffurfio â'u hawliau dynol.

Cafodd y Pwyllgor 26 o gyflwyniadau fel rhan o'i **ymgyngoriad cyhoeddus**, a gaeodd ym mis Medi 2019. Roedd y Pwyllgor hefyd am geisio barn plant a phobl ifanc drwy ei **adnodd "Cyfarfod mewn Blwch"**. Nod yr adnodd hwn oedd grymuso pobl ifanc i rannu eu barn ar hawliau plant, a hynny gan ddefnyddio cynllun gwerau a oedd wedi'i lunio'n arbennig fel y gallai gweithwyr ieuenctid, athrawon ac arweinwyr grŵp ei ddefnyddio. Siaradodd y Pwyllgor yn uniongyrchol â phlant mewn nifer o ddigwyddiadau ymgysylltu ledled Cymru, a chymerodd dystiolaeth hefyd gan ystod o randdeiliaid yn ei gyfarfod ar **16 Hydref 2019**.

Daeth materion iechyd i'r amlwg mewn nifer o'r cyflwyniadau ysgrifenedig a gafwyd gan y Pwyllgor, a hynny'n gysylltiedig â'r eitem a ganlyn yng Nghylch Gorchwyl y Pwyllgor: i ba raddau y mae Llywodraeth Cymru wedi ceisio sicrhau bod ei ddyletswyddau o fewn y Mesur yn cael eu cyfleu yng ngwaith y cyrff cyhoeddus y mae'n eu cyllido gan gynnwys awdurdodau lleol a chyrrff y GIG. Felly, fel rhan o'r broses o gasglu dystiolaeth, cymerodd y Pwyllgor dystiolaeth ar 16 Hydref gan gynrychiolwyr o Ysbyty Plant Cymru Arch Noa.


O ystyried pa mor berthnasol yw'r gwaith hwn i'ch cylch gwaith chi, rwy'n ysgrifennu atoch i'ch hysbysu am y ffaith y bydd y Dirprwy Weinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn ymddangos gerbron y Pwyllgor yn ystod ei gyfarfod ar 6 Tachwedd.



Os ydych chi, neu unrhyw Aelod arall o'ch Pwyllgor, am gael rhagor o wybodaeth am ein gwaith, neu os oes gennych ddiddordeb mewn cymryd rhan yn y cyfarfod dan sylw, dylech gysylltu â Chlerc y Pwyllgor.

Wrth gwrs, byddwn yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i chi a byddwn yn rhannu unrhyw gynnyrch ysgrifenedig â chi.

Yn gywir,



Lynne Neagle AC
Cadeirydd

